

O'r Cam Ymateb i'r Cam Adfer – ein dull o roi sicrwydd yn y cam adfer

Ein dull adfer

Mae ein dull adfer yng nghyd-destun COVID-19, sy'n parhau i gael ei drosglwyddo ymhlith cymunedau. Bydd pob cam gweithredu y byddwn yn ei gymryd yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trosolwg o'n hegwyddorion

- **Rhoi pobl yn gyntaf:** mae llais a llesiant pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau
- **Dull ymatebol a seiliedig ar risg:** byddwn yn gweithio mewn ffordd amserol a chymesur sy'n seiliedig ar risg
- **Dull seiliedig ar dystiolaeth:** caiff ein gwaith ei lywio gan ddata a gwybodaeth
- **Cydweithio:** byddwn yn parhau i wrando, rhannu gwybodaeth a chydweithio i lywio gwelliannau
- **Myfyrio a dysgu:** byddwn yn dysgu o ddulliau newydd er mwyn llywio ein cam nesaf (adnewyddu) ac yn parhau i gael budd o'r ffyrdd newydd o weithio

Gweithgareddau eraill rydym yn bwriadu eu cynnal

- **Cyfathrebu:** mentrau ac erthyglau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gwybodaeth ar ein gwefan
- **Adroddiadau:** cyhoeddi adroddiadau arolygu ac adroddiadau eraill AGC y gwnaethom eu gohirio i'w cyhoeddi dros dro
- **Data:** rhannu cudd-wybodaeth â phartneriaid allweddol i lywio'r gwaith o baratoi ar gyfer ail don

Ein dull cofrestru

- blaenoriaethu ceisiadau newydd ac amrywiadau i fanylion cofrestru er mwyn helpu i greu capasiti ychwanegol
- ymgysylltu â phartneriaid i gynnal trosolwg o wasanaethau sy'n darparu 'capasiti ymchwydd'

Ein dull monitor

- casglu adborth gan bobl ac ystyried gwybodaeth, hysbysiadau a phryderon
- cynnal mwy o weithgareddau ymgysylltu gan gynnwys cydweithio ag awdurdodau lleol a chomisiynwyr byrddau iechyd a chysylltu â gwasanaethau'n rheolaidd

Ein dull arolygu

- cynnal arolygiadau rhithwir/ar y safle os bydd gennym bryderon am iechyd a lles pobl
- sicrhau bod y staff yn cael eu diogelu ac nad ydynt yn cyflwyno risg o drosglwyddo'r haint

Ein dull gorfodi

- ymchwilio i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru
- cynnal ymchwiliadau troseddol sydd eisoes yn mynd rhagddynt